OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 No. 1535

## Gorchymyn Deddf Tai 2004 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) (Cymru) 2006

**Enwi, dehongli a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Tai 2004 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) (Cymru) 2006.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

(a) ystyr "Deddf 1985" ("*the 1985 Act*") yw Deddf Tai 1985(**1**)

(b) ystyr "Deddf 2004" ("*the 2004 Act*") yw Deddf Tai 2004;

(c) ystyr "y dyddiad cychwyn" ("*the commencement date*") yw 16 Mehefin 2006; ac

(ch) mae unrhyw gyfeiriad at ddiddymiad yn gyfeiriad at ddiddymiad a gynhwysir yn Atodlen 16 i Ddeddf 2004.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) 1985 p.68.